



**CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL**

**DYLAN J. WILLIAMS** BA (Hons), MSc, MA, M.R.T.P.I.  
Pennaeth Gwasanaeth – Rheoleiddio a Datblygu Economaidd  
Head of Service – Regulation and Economic Development

CYNGOR SIR YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL  
Canolfan Fusnes Môn • Anglesey Business Centre  
Parc Busnes Bryn Cefni • Bryn Cefni Business Park  
LLANGFNI  
Ynys Môn • Isle of Anglesey  
LL77 7XA

ffôn / tel: (01248) 752499  
ffacs / fax: (01248) 752192

Gofynnwch am / Please ask for: Dylan Williams  
E-bost / Email: [DylanWilliams@ynysmon.gov.uk](mailto:DylanWilliams@ynysmon.gov.uk)  
Ein Cyf / Our Ref: YM / EN010007  
Eich Cyf / Your Ref: EN010007

Dyddiad / Date: 14.3.19

Ms Kay Sully,  
The Planning Inspectorate,  
National Infrastructure Planning,  
Temple Quay House,  
2, The Square,  
Bristol,  
BS1 6NP

Annwyl Kay,

### **Archwiliad DCO Wylfa Newydd EN010007 – Cyflwyniad Dyddiad Cau 7**

Gweler ynghlwm os gwelwch yn dda gyflwyniadau Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) mewn perthynas â'r uchod.

Er diweddariad cyffredinol, mae CSYM yn cadarnhau y bu ymgysylltu cynhyrchiol iawn rhwng Pŵer Niwclear Horizon (PNH) a CSYM yn ystod wythnos y Gwrandawiadau Pwnc Benodol yr wythnos ddiwethaf (4 – 8 Mawrth 2019) a'r wythnos hon yn arwain at Ddyddiad Cau 7.

Mae CSYM yn nodi'r berthynas agos rhwng y sylwadau y mae wedi eu cyflwyno ar ofynion a'r materion y mae'r Ymgeisydd yn bwriadu eu rheoli drwy'r CoCP a'r Is-CoCP ('y CoCP'). Mae CSYM yn cytuno ei bod yn briodol rheoli nifer o'r materion sy'n peri pryder drwy'r CoCP a ddarparwyd a bod y rhain darparu dull manwl, penodol a gorfodadwy ar gyfer rheoli datblygiad.

I'r perwyl hwn, cafodd CSYM gyfarfod cynhyrchiol iawn gyda PNH ar 8 Mawrth 2019 pryd cafwyd trafodaeth ynghylch y materion sy'n parhau i beri pryder o ran y diffyg manylder yn y CoCPs. Mae CSYM ar ddeall fod PNH yn awr wrthi'n paratoi geiriad arall/ adrannau newydd ar gyfer eu cynnwys yn y CoCPs, a fydd yn cael eu cyflwyno gan PNH erbyn Dyddiad Cau 8. Rhwng cyflwyno sylwadau ar Ddyddiadau Cau 7 ac 8, mae CSYM yn disgwyl derbyn manylion gan PNH am y newidiadau y bwriedir eu gwneud i'r CoCPs fel y gall adolygu a diweddarau ei sefyllfa cyn D8.

Nid gan CSYM unrhyw reswm i gredu na fydd cytundeb ynglŷn â'r modd y caiff y CoCPs eu drafftio, ond petai unrhyw faterion yn parhau i beri pryder, fel y'u trafodwyd gyda Horizon yn y cyfarfod ar 8 Mawrth 2019, a ddim yn cael eu cynnwys yn y CoCP fel y'i cyflwynwyd erbyn dyddiad Cau 8, bydd CSYM yn argymhell newidiadau i'r drafft er mwyn sicrhau bod y materion hyn yn cael sylw yn y cyflwyniad ar gyfer Dyddiad Cau 8.

Mae'r Cyngor yn ogystal wedi cyfnewid geiriad ynghylch gofynion y DCO drafft gyda PNH yw wythnos hon ac mae'r cynnydd yn hynny o beth hefyd yn galonid i ni.

Mae CSYM yn cadarnhau ei fod wedi bwrw ymlaen i adolygu'r gofynion ar y sail y bydd egwyddorion y newidiadau i'r CoCPs y cytunwyd arnynt gyda PNH yn cael eu cynnwys mewn modd priodol yn y CoCP ac y bydd Strategaeth ddiwygiedig ar gyfer gwneud y gwaith fesul cam a Strategaeth ddrafft ar gyfer gwneud gwaith ar y Maes Parcio fesul cam yn cael eu darparu yn fuan ar gyfer trafodaeth.

O ran y trafodaethau sy'n ymwneud â'r cytundeb Adran 106 drafft, mae CSYM yn cadarnhau fod trafodaethau


Croeso i chi ddelio gyda'r Cyngor yn Gymraeg neu'n Saesneg. Cewch yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith.  
You are welcome to deal with the Council in Welsh or English. You will receive the same standard of service in both languages.

wedi mynd rhagddynt yn dda yn dilyn yr ISH yr wythnos ddiwethaf a bod atodlenni wedi cael eu datblygu ymhellach. Mae CSYM a PNH hefyd wedi ymgysylltu gyda chydranddeiliaid eraill er mwyn gweld a fedrir gwneud cynnydd o ran lliniaru'r pryderon / gwahaniaeth barn mewn perthynas â rhai atodlenni penodol. Yn hyn o beth, mae Nodyn ar Dai a Llety Gweithwyr a baratowyd ar ôl y Gwrandawriad wedi ei gynnwys yn Atodiad 1.

Mae cyflwyniadau ysgrifenedig ar yr achosion llafar a'r holl Bwyntiau Gweithredu eraill y penderfynwyd arnynt ar ôl y Gwrandawriad yn cael sylw yn Atodiad 2.

Bydd CSYM yn darparu diweddariadau pellach ar gynnydd erbyn Dyddiad Cau 8 ac yn y cyfamser, bydd yn parhau i ymgysylltu'n gadarnhaol gyda PNH a chydranddeiliaid eraill.

## **Yn Gywir**



**DYLAN J. WILLIAMS**

Pennaeth Gwasanaeth – Rheoleiddio a Datblygu Economaidd